prosiect gwyrdd
PROJECT GREEN

LLOFNODI CONTRACT GYDA VIRIDOR – CWBLHAU'R AGWEDDAU ARIANNOL AR PROSIECT GWYRDD

Annwyl Randdeiliad,

Yn dilyn penderfyniad y Cyngor Llawn yn eich awdurdod, mae Partneriaeth Prosiect Gwyrdd wedi llofnodi contract 25 mlynedd gyda Viridor. Llofnodwyd Cytundeb Cydweithio rhwng y Pum Cyngor. Mae'r cytundeb yn esbonio sut y bydd y bartneriaeth yn gweithredu dan y contract. Cyhoeddwyd fersiwn cyhoeddus o'r cytundeb cyfreithiol hwn ar ein gwefan - **http://www.caerffili.gov.uk/prosiectgwyrdd/pdfs/JWA2.pdf**

Dan y contract, bydd y cam comisiynu yn dechrau ym mis Medi 2015 a bydd y gwasanaeth llawn yn dechrau ar 1 Ebrill 2016.

Mae'r cam terfynol hwn o'r project yn dilyn proses dendro gadarn a chystadleuol ac mae'r contract yn rhoi gwerth rhagorol am arian, gan ddefnyddio technoleg ddiogel a phrofedig i sicrhau datrysiad amgylcheddol cynaliadwy ar gyfer y sbwriel sy'n weddill ar ôl ailgylchu a chompostio. Bydd y bartneriaeth yn arbed £11 miliwn yn y flwyddyn gyntaf ac yn arbed £500 miliwn dros gyfnod y contract o gymharu â'r trefniadau cyfredol.

Contract cymhleth ydyw sydd â chymalau rheoli ar waith fel bod y bartneriaeth yn gallu sicrhau bod Viridor yn darparu'r gwasanaeth, gan ailgylchu 5 % o wastraff ychwanegol tuag at ofynion ailgylchu heriol Llywodraeth Cymru.

Os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r tîm projectau naill ai drwy e-bost info@prosiectgwyrdd.co.uk neu dros y ffôn 02920 717523.

Yn gywir,
Prosiect Gwyrdd

www.prosiectgwyrdd.co.uk